



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

ASESIAD LLESIANT



Y BENNOD CRYNODEB

CONTENTS

CYFLWYNIAD	1
CRYNODEB O'R YSTYRIAETHAU I GASTELL-NEDD PORT TALBOT	2
CYMRU LEWYRCHUS	6
CYMRU GYDNERTH	8
CYMRU IACHACH	9
CYMRU SY'N FWY CYFARTAL	11
CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS	12
CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU	13
CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG	15
CANFYDDIADAU'R CYHOEDD O NEWID – YMATEB "DEWCH I SGWRSIO"	16
NEWIDIADAU A BROFWYD	18
CANFYDDIADAU'R CYHOEDD O'R BLAENORIAETHAU WRTH SYMUD YMLAEN	19



CYFLWYNIAD



Mae'r bennod grynodol hon yn cyfuno ac yn dadansoddi'r canfyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn y pedair pennod ar bileri Llesiant Castell-nedd Port Talbot (CNPT):



ECONOMAIDD



AMGYLCHEDD



DIWYLLIANT



CYMDEITHASOL

Mae'r bennod hon yn ystyried y materion allweddol a'r cynnydd a gyflawnwyd ers yr Asesiad Llesiant blaenorol, a'r adborth a gafwyd yn yr ymgyrch "Dewch i Sgwrsio" trwy lens ôl-gyrchol a rhagfynegiadol. Cyflwynir yr wybodaeth yng nghyd-destun y Saith Nod Llesiant, a dylid ei darllen ochr yn ochr â'r pedair pennod ar y pileri Llesiant.

Ers yr Asesiad Llesiant cyntaf yn 2017, gwnaed cynnydd cadarnhaol i wella canlyniadau Llesiant CNPT. Cyflawnwyd y gwelliant hwn er gwaethaf toriadau i'r gyllideb a champau cysylltiedig â chyni, pandemig COVID-19 a'r heriau parhaus a achosir gan fygythiadau amgylcheddol. Mae pwysigrwydd diogelu'r amgylchedd naturiol yn flaenoriaeth uchel, gan fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Argyfwng Hinsawdd yn 2019 ac Argyfwng Natur yn 2021. Mae'r argyfwng deublyg hwn yn amlygu arwyddocâd yr heriau rhyng-gysylltiedig a'r brys sy'n angenrheidiol wrth fynd i'r afael â nhw. Mae'n hanfodol edrych ar yr amgylchedd cymdeithasol a naturiol ar y cyd i gyflawni datblygu cynaliadwy.

CRYNODEB O'R YSTYRIAETHAU I GASTELL-NEDD PORT TALBOT



CYMRU LEWYRCHUS

- **ECONOMI WERDD:** CNPT yw un o'r lleoliadau gweithgynhyrchu pwysicaf yn y Deyrnas Unedig o hyd, gyda'r cyfateilad cynhyrchu dur mwyaf ym Mhort Talbot. Mae datgarboneiddio asedau economaidd pwysig fel hyn i gyrraedd targed Sero Net Llywodraeth Cymru yn her sylweddol. Er bod allyriadau carbon wedi lleihau yn CNPT yn ystod y degawd diwethaf, mae'r gostyngiad hwnnw'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd addawol ar gyfer twf yn y dyfodol yn gysylltiedig â datgarboneiddio, er enghraifft trwy weledigaeth Associated British Ports ar gyfer Dociau Port Talbot fel canolbwynt cynhyrchu â phwysigrwydd byd-eang ar gyfer tyrbinau gwynt oddi ar y lan.
- **GWEITHLU MEDRUS:** Mae'r galwedigaethau'n dal â lefel is o sgiliau na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae angen i ni gydweithio i uwchsgilio ein gweithlu er mwyn ymateb i'r galw hirdymor am swyddi yn yr ardal.
- **ADFERIAD WEDI'R PANDEMIG:** Mae cyflogaeth yn adfer wedi'r pandemig, ond mae angen cefnogaeth yng nghyswllt recriwtio i sectorau sy'n tyfu. Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i ni ailystyried sut rydyn ni'n gwneud pethau ac ailadeiladu'n well, mewn modd gwyrdd a theg, sy'n rhoi sylw i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur.
- **GOFAL PLANT:** Gall costau fod yn rhwystr i gyflogaeth. Mae angen i ni gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar yr hyn y gellir ei hawlio, a chefnogi datblygiad y sector hwn.



CYMRU GYDNERTH

- **Terfynau Adnoddau Naturiol:** Rydyn ni'n defnyddio stociau o'n hadnoddau naturiol ar gyflymdra sy'n anghynaliadwy, ac mae ein hecosystemau o dan bwysau a bygythiad cynyddol yn sgîl effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, y newid yn y defnydd o dir, rhywogaethau anfrodorol ymwithiol (INNS), llygredd a gorddefnydd.
- **Ecosystemau:** Nid yw llawer o'n hecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid annisgwyl neu nas rhagwelwyd. Mae hyn yn peryglu gallu ein hamgylchedd naturiol i ddarparu nifer o fanteision llesol hanfodol yn awr ac yn y dyfodol.
- **Adferiad seiliedig ar Fyd Natur:** Bydd hinsawdd newidiol yn debygol o effeithio ar gyflwr a dosbarthiad cynefinoedd a rhywogaethau, ac mae cynefinoedd sydd wedi diraddio yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, trwy sicrhau adferiad i fyd natur, gallwn ni hefyd fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
- **Asedau Naturiol:** Mae'r trigolion yn gwerthfawrogi ac yn gosod gwerth ar yr asedau naturiol yn CNPT, ond mae angen gwneud mwy i'w gwella a'u helpu i ymadfer yn y tymor hir.
- **Llifogydd a Newid Arfordirol:** Risgiau llifogydd a newid arfordirol i gartrefi, cymunedau, busnesau, seilwaith ac ecosystemau yw un o'r prif bryderon ynghylch y newid yn yr hinsawdd yn CNPT.



CYMRU IACHACH

- **POBLOGAETH SY'N NEWID:** Mae cynnydd parhaus yn y boblogaeth hŷn, a hefyd mewn aelwydydd un person, yn debygol o fod yn ffactor sy'n cyfrannu at gynyddu unigrwydd ac ynysu. Mae'r bwlch o ran hyd oes disgwyliedig a hyd oes iach disgwyliedig hefyd yn arwydd o bwysau cynyddol ar wasanaethau cymdeithasol a iechyd.
- **MANNAU IACH:** Wrth gymharu â Chymru, gan CNPT mae un o'r deietau lleiaf iach a'r lefelau isaf o weithgaredd corfforol. Mae angen gwaith i wrthweithio'r duedd gynyddol o ran gordewdra, ac mae modd gwneud mwy i sicrhau bod y mannau lle rydyn ni'n byw yn ein helpu i fod yn actif a bwyta'n dda.
- **LLESIANT MEDDYLIOL:** Adroddodd trigolion CNPT am lesiant meddyliol cymharol gadarnhaol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn barod ar gyfer cynnydd mewn lefel isel o lesiant meddyliol a chyflyrau iechyd meddwl wrth i wir effeithiau'r pandemig ddod i'r amlwg.
- **TAI:** Mae angen mwy o dai fforddiadwy arnon ni yn CNPT, gyda 1,037 o gartrefi newydd yn ofynnol erbyn 2033. Mae'n galonogol bod 434 o unedau newydd wedi cael eu hadeiladu rhwng 2018 a 2021.
- **ANSAWDD AER:** Er bod ansawdd aer ar draws CNPT wedi gwella yn ystod y degawd diwethaf, mae'n dal yn faes sy'n destun pryder ac yn flaenoriaeth allweddol er mwyn gwella iechyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.



CYMRU SY’N FWY CYFARTAL

- **AMDDIFADEDD A THLODI:** Mae crynodiadau uchel o amddifadedd a thlodi yn parhau mewn ardaloedd yn CNPT. Bydd y cynnydd presennol mewn costau byw yn effeithio fwyaf ar yr ardaloedd hyn.
- **INCWM AELWYDYDD:** Mae incwm aelwydydd wedi gostwng ar draws Cymru yn ystod y pandemig, ac mae’n fwy tebygol o effeithio ar bobl sydd ag incwm isel i ganolig.
- **EFFAITH COVID-19:** Mae Covid-19 wedi cynyddu anghydraddoldeb yn gyffredinol yn CNPT, ac mae’r grwpiau yr effeithiwyd waethaf arnynt yn cynnwys Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Ddu, benywod a phobl ifanc.
- **ADDYSG:** Ymddengys bod y pandemig wedi cynyddu anghydraddoldeb o ran cyrhaeddiad addysgol, ac mae’n bosibl nad yw hyd a lled yr effaith hon yn amlwg eto.
- **RISG AMGYLCHEDDOL:** Y rhai mwyaf bregus yn y gymdeithas sy’n wynebu’r risg amgylcheddol uchaf fel ansawdd aer gwael a llifogydd. Disgwylir i’r newid yn yr hinsawdd waethygu’r anghydraddoldebau hyn, ac mae perygl y bydd ymatebion i’r newid yn yr hinsawdd yn gallu rhoi baich anghymesur ar bobl a chymunedau bregus.



CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

- **YSBRYD CYMUNEDOL:** Mae cymunedau wedi cyd-dynnu yn ystod y pandemig, ac mae’r trigolion wedi nodi’r cynnydd o ran ysbryd cymunedol a chefnogaeth. Dylid cefnogi cymunedau i ffurfio’u dyfodol eu hunain.
- **CYMUNEDAU DIOGEL:** Bernir yn gyffredinol bod CNPT yn lle diogel i fyw. Bu gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais yn erbyn benywod, er ein bod wedi gweld tuedd ar i fyny o ran seiberdroseddu. Mae trigolion CNPT yn pryderu ynghylch cyffuriau yn y cymunedau.
- **CYMUNEDAU CYSYLLTIEDIG:** Er bod cysylltiadau da rhwng trefi Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe a’i gilydd ac â gweddill Cymru, mae’r cysylltiadau trafniadaeth yn ardaloedd y cymoedd yn wael ac yn cyfrannu at ynysu’r bobl sy’n byw yno yn gymdeithasol ac yn economaidd.
- **PLANT A PHOBL IFANC:** Mae trigolion CNPT yn teimlo ei fod yn bwysig bod gan blant a phobl ifanc fwy o leoedd i fynd iddyn nhw a phethau i’w gwneud.



CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

- **TREFTADAETH FALCH:** Mae pobl yn CNPT yn falch o'u treftadaeth a'u cymunedau Cymreig traddodiadol. Mae angen i ni ddiogelu a chadw ein diwylliant, ein hanes a'n treftadaeth naturiol gyfoethog, gan gadw cynhwysedd mewn golwg wrth i'n diwylliant amrywio mwyfwy a gweithio i ddileu stigma hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ardal trwy hyrwyddo'r ardal.
- **YR IAITH GYMRAEG:** Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng, mae'r dysgu a'r cyfleoedd addysgol Cymraeg yn cynyddu. Mae angen i ni ddarparu mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn CNPT er mwyn cynyddu hyder y trigolion.
- **CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT:** Mae tangyllido i'r celfyddydau a diwylliant wedi cael effaith negyddol ar yr hyn a gynigir dros y blynyddoedd, ac mae'r pandemig wedi effeithio ymhellach ar hynny. Rydyn ni'n gwybod bod mynediad at y pethau hyn yn ffactor pwysig ar gyfer gwella llesiant.
- **GWIRFODDOLI:** Gan fod nifer cynyddol o asedau cymunedol (e.e. canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth) yng ngofal gwirfoddolwyr sy'n dibynnu ar arian grant, mae angen i ni roi cefnogaeth i sicrhau bod hyn yn gynaliadwy, fel nad yw asedau o'r fath yn cael eu colli.



CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

- **DEFNYDD O ADNODDAU A DATGARBONEIDDIO:** Mae CNPT yn defnyddio 2.5 gwaith yn fwy o adnoddau fesul person nag y gall y blaned gynnal. Ar ben hynny, mae CNPT yn gyfrannwr pwysig at garbon yng Nghymru, ac mae'n wynebu her i gydbwysu nodau Sero Net yn erbyn manteision economaidd ei gyflogwyr ynni/allyriadau uchel.
- **ARGYFWNG YR HINSAWDD A BYD NATUR:** Mae CNPT yn arweinydd ym maes ynni adnewyddadwy, gyda chapasiti gosodiadau ynni adnewyddadwy sydd ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae prosiectau cyfredol i adfer cynefinoedd cyfagos megis cipio carbon o fawndiroedd yn dangos ffyrdd o sicrhau manteision lluosog er mwyn mynd i'r afael ag argyfyngau'r Hinsawdd a Byd Natur yr un pryd.
- **PERSONOLIAETHAU ENWOG:** Mae CNPT wedi cynhyrchu actorion, artistiaid a phersonoliaethau chwaraeon bydenwog, sy'n rhoi hunaniaeth fyd-eang i ni, ac mae modd harneisio hynny ymhellach i hyrwyddo'r rhanbarth.



CYMRU LEWYRCHUS



Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy gael gafael ar waith addas.

Anogwyd gwelliannau yn allyriadau carbon, gwastraff ac ansawdd aer CNPT ers yr asesiad diwethaf, ond mae gwelliant pellach yn dal yn flaenoriaeth. Yn 2020-2021, cynhyrchodd trigolion CNPT ychydig o dan 1% yn llai o wastraff fesul person na'r cyfartaledd cenedlaethol (466kg o gymharu â 470kg). Er bod ansawdd aer wedi gwella'n sylweddol yn CNPT yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae cynnydd pellach yn digwydd trwy ddefnyddio technoleg newydd a fydd yn helpu i leihau marwolaeth ac effeithiau eraill negyddol y credir bod ansawdd aer gwael yn eu hachosi. Yn 2021, adroddodd cyngor CNPT mai hon oedd yr ardal gyntaf yng Nghymru i weithredu'r dull arloesol o osod synwryddion ar bolion lamp er mwyn casglu gwybodaeth am ansawdd aer.

Mae lleihau effaith amgylcheddol cynhyrchu a chymeriant, a'r ôl-troed carbon o Gymru a'r tu hwnt, yn ganolog i gyflawni'r nod o fod yn wlad lewyrchus sydd â chyfrifoldeb ar lefel byd-eang. Y targed yw bod Cymru'n defnyddio dim mwy na'i chyfran deg o adnoddau byd-eang ar gyfer yr economi, yn gweithredu oddi mewn i gapasiti adnewyddol ecosystemau'r Ddaear, ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant byd-eang. Mae CNPT yn gartref i'r cyfaddilad cynhyrchu dur mwyaf yn y Deyrnas Unedig, ac mae'n un o'r lleoliadau gweithgynhyrchu pwysicaf yn y Deyrnas Unedig. Mae'r diwydiant dur yn dal i fod o fudd economaidd sylweddol i'r ardal, ac er ei fod yn darparu hunaniaeth ddiwylliannol greiddiol, ni ellir gwadu ei effaith ar y newid yn yr hinsawdd. CNPT sydd â'r dwysedd carbon uchaf o blith holl awdurdodau lleol y Deyrnas Unedig, ac mae'n allyrru 53% o'r carbon diwydiannol yng Nghymru. O ganlyniad, mae trigolion yn CNPT yn cynhyrchu dros saith gwaith cymaint o garbon y pen â'r cyfartaledd cenedlaethol, er bod allyriadau trafndiaeth ac aelwydydd yn debyg i awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Er bod allyriadau carbon wedi gostwng 9% rhwng 2005 a 2019, mae'r gostyngiad hwn yn is na chyfartaledd y Deyrnas Unedig o 36%.

Yn 2018, amcangyfrifwyd bod economi CNPT yn werth £2.6 biliwn, ac yn cynnal rhyw 56,000 o swyddi. Mae cymwysterau'r gweithlu (hyd at NVQ3 a NVQ4) yn dal yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ond gwelwyd tuedd ar i fyny ynddynt. Cyn y pandemig, cododd cyfraddau cyflogaeth 10% rhwng 2014 a 2019. Yn anffodus, ar ddechrau pandemig COVID-19, cododd cyfraddau diweithdra 59% er gwaethaf cynllun ffyrlo effeithiol. Roedd y cynnydd mewn diweithdra 27% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (86%) oherwydd dod i lai o gysylltiad â sectorau gwasanaeth fel lletygarwch. Ers i'r cyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio, mae cyfraddau cyflogaeth yn ymadfer, gyda gostyngiad o 18% mewn diweithdra rhwng Mawrth ac Awst 2021. Mae pryder o hyd y byddai parhau i resymoli swyddi yn Tata Steel yn cael effaith negyddol ar lefelau cyflogaeth ac yn dilyn hynny ar lesiant unigol ar draws yr awdurdod lleol a'r tu hwnt. Ar ben hynny, mae COVID-19 wedi ehangu'r bwlch anghydraddoldeb mewn addysg, gyda chanlyniadau arholiadau gwaeth ar draws yr awdurdod lleol o gymharu ag ardaloedd llai difreintiedig. Bydd cyfnodau pellach o gau ysgolion, addysgu gartref a lleihau mynediad a dilyniant i addysg bellach ac uwch hefyd yn effeithio ar y gweithlu am gryn gyfnod i ddod.

Cafodd newidiadau mewn arferion gwaith ar hyd y pandemig ddylanwad cadarnhaol ar yr amgylchedd. Bu gostyngiad yn y defnydd o geir, gyda mwy o bwysau ar gyflogaeth i weithio gartref. Ar ben hynny, mae 11% (2017-18) o aelwydydd yn CNPT yn profi tlodi tanwydd, ac roedd gweithio gartref yn gwaethygu'r problemau hynny. Mae tlodi tanwydd yn debygol o fod wedi cynyddu ymhellach yn ystod y pandemig.

Mae pandemig COVID-19 nawr wedi rhoi cyfle i ni ailystyried sut rydyn ni'n gwneud pethau ac ailadeiladu'n well mewn ffordd werdd a theg, sy'n ymdrin ag argyfyngau'r hinsawdd a byd natur, ynghyd â heriau eraill sy'n wynebu cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae gan CNPT gynllun adferiad economaidd hyfyw i helpu i "ailadeiladu'n gryfach" gyda mwy o wydnwch. Nod y cynllun adferiad yw canolbwyntio ei ymdrechion ar y manau, y cymunedau a'r sectorau busnes sydd wedi'u taro waethaf trwy dargedu cyfleoedd newydd, gan gynnwys cyfres o fesurau i gyflawni economi wyrddach.



CYMRU GYDNERTH



Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft y newid yn yr hinsawdd).

Rydyn ni'n defnyddio ein stociau o adnoddau naturiol ar gyfradd sy'n anghynaliadwy ac mae ein hecosystemau o dan bwysau a bygythiad cynyddol yn sgîl effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, newid yn y defnydd o dir, rhywogaethau anfrodorol ymwithiol (INNS), llygredd a gorddefnydd. Nid yw llawer o'n hecosystemau yn gydnerth yn wyneb newid annisgwyl neu nas rhagwelwyd oherwydd bod un agwedd neu fwy arnynt yn annigonol. Mae hynny'n peryglu gallu ein hamgylchedd naturiol i ddarparu nifer o fanteision llesiant hanfodol nawr ac yn y dyfodol.

Mae cyflwr byd natur yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ddarlun cymysg, oherwydd er bod mwyafrif y cynefinoedd a'u bywyd gwylt cysylltiedig o dan fygythiad ac wedi'u gweld yn dirywio ers blynnyddoedd, mae rhai asedau sylweddol yn parhau. Gan fod colli cynefinoedd, difrod iddynt a rheolaeth wael arnynt yn dal i gyfrannu at argyfwng byd natur, ni fu erioed yn bwysicach manteisio ar gyfleoedd i gyflawni camau cadarnhaol, i wrdroi'r tueddiad hwn, ac i wella ac adfer natur yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae tywydd eithafol sy'n digwydd yn amlach o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd yn achosi ansicrwydd sylweddol i drigolion CNPT yn ystod cyfnodau stormus. Mae dros 15,000 o eiddo yn CNPT yn wynebu perygl llifogydd, gydag effaith gynyddol ar iechyd a sefyllfa economaidd unigolion. Ym mis Ionawr 2021, profodd Sgiwen lifogydd difrifol o ganlyniad i Storm Christoph. Mae sicrhau bod darpariaethau yn eu lle i leihau effaith llifogydd yn hanfodol ar gyfer nifer fawr o gymunedau CNPT. Mae rhagfynegiadau'r newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y bydd lefel y môr yn codi rhwng 0.2 ac 1 metr ar hyd arfordir De Cymru. Mae erydiad arfordirol yn broses naturiol, ac er bod datblygiadau ar lan y môr yn cael eu diogelu gan amddiffynfeydd arfordirol, mae angen hefyd i ni ystyried sut gall cymunedau addasu i newidiadau arfordirol.

Mae cyfoeth o fioamrywiaeth mewn ecosystemau dŵr croyw, sydd hefyd yn darparu gwasanaethau ecosystem pwysig, gan gynnwys darparu adnoddau dŵr a rheoli llifogydd. Yn 2021, dim ond 31% (allan o 29) o'r cyrff dŵr (sy'n llwyr neu'n rhannol) yn CNPT gafodd eu graddio fel rhai â Statws Ecolegol Da, o gymharu â 36% yn 2018. Yn ogystal, israddiwyd safon dosbarthiad dŵr ymdrochi Aberafan o 'da' yn 2015 i 'digonol' nawr.

Mae biota pridd a deunydd organig wedi bod yn lleihau yng Nghymru, ac mae hynny wedi arwain at leihau ansawdd a swyddogaeth. Mae gan CNPT nifer sylweddol o gynefinoedd mawn, ac mae hynny'n ystyriaeth allweddol yn CNPT gan ei fod yn bwysig ar gyfer cipio carbon ac yn cefnogi'r gwaith o liniaru'r newid yn yr hinsawdd. Fel rhan o gynllun 25-mllynedd, gwneir gwaith helaeth i adfer y cynefinoedd hyn.

Bydd hinsawdd newidiol yn debygol o effeithio ar gyflwr a dosbarthiad cynefinoedd a rhywogaethau, ac mae cynefinoedd sydd wedi diraddio yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, trwy sicrhau adferiad i fyd natur gallwn fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn ogystal. Gall cynefinoedd llewyrchus roi symiau aruthrol o garbon dan glo, ochr yn ochr â darparu manteision eraill hanfodol sy'n ein helpu i addasu i'n hinsawdd yn y dyfodol, megis atal llifogydd, dŵr glân a gwella iechyd a llesiant.



CYMRU IACHACH



Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Mae disgwyl i'r boblogaeth gyffredinol yn CNPT gynyddu 2.8% erbyn 2028, fel bod nifer y trigolion yn cyrraedd 146,840, gyda chynnydd anghymesur yn y rhai 65+ oed (cynnydd o ryw 7,000). Rhagwelir y bydd y boblogaeth breswyl 75+ oed yn cynyddu 50%, o 13,500 i 20,100, rhwng 2018 a 2033. Rhagwelir y bydd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth oedolion hŷn yn ardaloedd Castell-nedd a Phort Talbot, ac i raddau llai yn ardal Pontardawe.

Mae'n debygol y bydd y cynnydd yn hyd oes disgwyledig a morbidrwydd yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus, ac y bydd cynnydd mewn cyflogaeth ar draws y sector yn cydbwysu hynny. Mae cynyddu hyd oes disgwyledig a iechyd corfforol a meddyliol cadarnhaol yn hanfodol er mwyn byw'n dda gydag ansawdd bywyd da. Ar yr ochr gadarnhaol, graddiwyd trigolion CNPT ymhlith y pum awdurdod lleol ar y brig yng Nghymru o ran llesiant meddwl. Ar y llaw arall, mae unigrwydd ar gynydd oherwydd nifer cynyddol o aelwydydd un person, yr ychwanegwyd atynt yn sgîl mesurau ynysu cymdeithasol a roddwyd ar waith yn ystod pandemig COVID-19. Yn CNPT mae 14.2% o'r trigolion yn profi unigrwydd, o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 15.5%. O ystyried y cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio a nifer yr aelwydydd un person, mae ynysu cymdeithasol yn dal yn bryder o bwys yng nghyswllt iechyd cyhoeddus. Yn sgîl y pwyslais a roddwyd ar gydlyniant cymunedol yn ymatebion Dewch i Sgwrsio, mae'n debygol bod cymunedau cefnogol wedi helpu i wrthweithio effaith unigrwydd yn CNPT. Mewn cyferbyniad, gall cysylltedd corfforol annigonol o fewn a rhwng cymunedau waethygu unigrwydd.

Mae dau draean o'r oedolion yn CNPT (66%) dros bwysau neu'n ordew; 6% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid yw ymdrechion i leihau lefelau gordewdra yn cael eu cefnogi gan yr amgylchedd obesogenig (amgylchedd sy'n helpu i godi lefelau gordewdra). Er enghraifft, mae gan CNPT fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol o allfeydd bwyd cyflym fesul 100,000 o bobl (104.86 o gymharu â 100.65, yn eu tro). Un math o ymddygiad sy'n gwneud iawn am lyncu gormod o galoriau yw gweithgarwch corfforol. Ceir rhai o'r lefelau gweithgarwch corfforol isaf yng Nghymru yn yr ardal hon, ac mae CNPT ymhlith y pum awdurdod lleol isaf o ran canran yr oedolion sy'n bodloni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol. Mae'n bwysig cyfleu neges y canllawiau, sef bod "unrhyw weithgarwch yn well na dim, a bod mwy yn well fyth", yn enwedig gan fod tystiolaeth aruthrol sy'n dangos manteision cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol o safbwynt iechyd corff a meddwl cadarnhaol. Mae'n bwysig bod y seilwaith yn ei le i alluogi gweithgarwch corfforol, a hybu llesiant meddyliol, cydlyniant cymunedol, hinsawdd cymdeithasol a chysylltedd.

Elfen berthnasol yma yw bod gan CNPT gyfran sylweddol o asedau naturiol: mae coetir yn gorchuddio 40% o'r ardal. Ni ddylid tanbrisio gwerth manau gwyrdd yn ystod y pandemig, ac roedd cyfleusterau a gwasanaethau o safon, a leolwyd yn dda (e.e. toiledau cyhoeddus, siopau, caffis) yn cyfrannu at lesiant, nifer yr ymwelwyr a gweithgarwch economaidd. Cynyddodd "teithio llesol" (cerdded a beicio) yn ystod y pandemig, gan wella canfyddiad y cyhoedd o ddiogelwch y tu allan yn ogystal â lleihau'r teithiau mewn ceir a'r allyriadau carbon. Mae pwysigrwydd Mannau Gwyrdd a Seilwaith Gwyrdd yn cael ei gydnabod fwyfwy tu allan i sector yr amgylchedd, i raddau helaeth oherwydd pandemig COVID-19, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i hybu mwy o ddarpariaeth o'r fath yn CNPT.

Ansawdd Aer yw prif achos baich amgylcheddol afiechyd, ac fe'i disgrifiwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel argyfwng iechyd cyhoeddus brys, sy'n ail i smygu yn unig. Gall dod i gysylltiad â llygredd aer yn y tymor hir arwain at symptomau a chyflyrau difrifol sy'n effeithio ar iechyd dynol. Amcangyfrifir bod llygredd aer yn cyfrannu at 2,000 o farwolaethau y flwyddyn yng Nghymru (6% o gyfanswm y marwolaethau) a 30,000-40,000 ar draws y Deyrnas Unedig (6-7%). Er bod ansawdd aer wedi gwella'n sylweddol ar draws CNPT, mae'n dal yn faes sy'n destun pryder. Mae Cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Aer Glân i Gymru yn cyflwyno cynllun ar gyfer gwella ansawdd aer a lleihau'r effeithiau ar iechyd dynol. Mae taclo ansawdd aer yn CNPT yn flaenoriaeth allweddol er mwyn diogelu iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Gwelwyd rhai tueddiadau calonogol hefyd mewn mathau eraill o ymddygiad cysylltiedig â iechyd, fel smygu, camddefnyddio sylweddau, alcohol a deiet. Mae amlygrwydd smygu, 17%, yn gynrychioliadol ar lefel genedlaethol, ond gwelwyd un o'r gostyngiadau mwyaf mewn ymddygiad smygu yn CNPT, o 26% i 17% rhwng 2016 a 2021, a gostyngiad tebyg o ran yfed gormodedd o alcohol, sydd wedi gostwng o 21% i 16% yn ystod yr un cyfnod o amser. Ar y llaw arall, mae anfon pobl i'r ysbyty o ganlyniad i alcohol rywfaint yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd 8 o bob 10 o'r trigolion oedd yn chwilio am help ar gyfer camddefnyddio sylweddau rhwng 31 a 65 oed, gyda dwywaith cynifer o ddynion â benywod yn cael mynediad i wasanaethau cymorth. Adroddodd 13% o'r ymatebwyr "Dewch i sgwrsio" eu bod am gael cefnogaeth ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cyffuriau ac alcohol. Yn olaf, dim ond 1 o bob 6 oedolyn yn CNPT sy'n bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau y dydd, sy'n arwydd o ddeiet ymhlith y lleiaf iach yng Nghymru.

Mae angen cynyddu'r tai fforddiadwy yn ardal leol CNPT, ac mae angen 1,037 o gartrefi newydd erbyn 2033 ym mhob ardal heblaw Cwm Afan. Mae'n galonogol bod 434 o unedau newydd wedi cael eu hadeiladu rhwng 2018 a 2021. Yn y pegwn arall, mae'r boblogaeth sy'n heneiddio hefyd yn cael effaith ar faint aelwydydd, a fydd wedi gostwng o 2.5 i 2.2 o bobl rhwng 1991 a 2033.



CYMRU SY'N FWY CYFARTAL



Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir sosio-economaidd a'u hamgylchiadau).

Mae amddifadedd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn CNPT. Amlygodd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 fod amddifadedd uwch na'r cyfartaledd mewn dros ddau draean o'r ardaloedd (69.2%) yn CNPT, tra bod traean o'r ardaloedd yn y cwintel mwyaf difreintiedig (20%). Mae'r WIMD yn awgrymu, er bod ystod eang o drigolion difreintiedig yn CNPT, fod ardaloedd lle ceir crynodiadau yn y categori mwyaf difreintiedig. Yn 2021, roedd tua 4.5% (4,000 o oedolion) o drigolion CNPT yn hawlio Credyd Cynhwysol. Mae effaith amddifadedd yn debygol o waethygu yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i lefelau tlodi gynyddu (e.e. bwyd a thanwydd), gan effeithio ar y teuluoedd sydd â'r incwm isaf.

Er bod hyd oes disgwylidig wedi codi rhyw fymryn yn CNPT, gyda gwrywod yn byw i 77.1 oed ar gyfartaledd, mae'n dal yn ail isaf yng Nghymru. Mae hyd oes disgwylidig benywod yn CNPT bedair blynedd yn hwy na'r gwrywod, sef 81.3 o flynyddoedd. Mae'n arwyddocaol bod hyd oes disgwylidig benywod yn CNPT yn nes at y cyfartaledd cenedlaethol ac mewn safle mwy ffafriol o gymharu ag awdurdod eraill na'r dynion. Serch hynny, mae angen ystyried y ffaith bod pobl yn byw'n hwy yng nghyd-destun ansawdd bywyd; mae adroddiad Cyflwr y Genedl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021) yn nodi bod bwlch o ryw 17 a 20 o flynyddoedd, yn achos dynion a benywod yn eu tro, rhwng hyd oes disgwylidig a hyd oes iach disgwylidig. Mae disgwyl i'r 17-20 mlynedd hyn o forbidrwydd cronig gynyddu mewn poblogaeth sy'n heneiddio, gan roi pwysau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus a thrydydd sector. Mae hynny'n tanlinellu'r angen am hybu llesiant yn CNPT trwy'r holl weithgaredd sector cyhoeddus, ac yn arbennig ymhlith teuluoedd a'r blynyddoedd cynnar.

Mae effaith byw o dan amodau difreintiedig yn ystod plentyndod yn effeithio ar iechyd plant yn awr ac mewn cenedlaethau dilynol. Yng Nghymru, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru bolisi blaengar “Erthygl 32” o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn, gan ymrwymo i blant a’u hawliau a’u mynediad at chwarae. Gwelwyd cynnydd yng nghanran y plant sy’n byw mewn tlodi rhwng 2018 a 2020, ac mae hynny’n destun pryder sylweddol (2018-2019: 27.8%; 2019/2020: 30.5%). Mae “dechrau da mewn bywyd” yn hanfodol, felly mae angen gweithredu i wyrddroi’r tueddiad hwn yn CNPT.

Mae anghydraddoldebau amgylcheddol yn croesdorri anghydraddoldebau sosio-economaidd a gofodol, a phoblogaethau sydd o dan anfantais gymdeithasol a/neu ofodol a’r rhai sydd mewn sefyllfa fregus sy’n dwyn y baich hwn gan mwyaf. Mae aelodau mwyaf agored i niwed cymdeithas, neu’r rhai sydd mewn sefyllfa fregus, fel yr henoed, y rhai sy’n byw mewn tlodi, y di-waith, y rhai mewn ardaloedd lle ceir risg llifogydd, ansawdd aer gwael, neu lefelau uchel o sŵn amgylcheddol yn wynebu risg uwch o gynyddu’r baich iechyd a gostwng lefelau hyd oes iach disgwyliedig oherwydd risgiau amgylcheddol hysbys, y gellid eu hosgoi. Bydd risgiau cynyddol yr hinsawdd yn effeithio ar Gymru gyfan, ond mae rhai pobl ac ardaloedd yn arbennig o fregus yn wyneb newid, ac mae perygl y bydd anghydraddoldeb yn gwaethygu. Gall y newid yn yr hinsawdd a thywydd eithafol waethygu anghydraddoldebau iechyd a llesiant. Mae perygl hefyd y gall ymatebion i’r newid yn yr hinsawdd roi baich anghymesur ar bobl a chymunedau sydd eisoes yn agored i niwed.



CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS



Cymunedau atyniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da.

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr o’r arolwg “Dewch i Sgwrsio” a’r grwpiau ffocws gyfyngiadau trafndiaeth gyhoeddus, gan nodi’n arbennig y diffyg cysylltiad rheilffordd rhwng y cymoedd. O ran y gofod digidol, mae gan bron yr holl eiddo (98%) fynediad at fand eang cyflym iawn, gyda chysylltedd a defnydd cynyddol gan grwpiau oed hŷn, yn arbennig y rhai 75 oed a throsodd. Serch hynny, mae rhagor o waith i’w wneud ar seilwaith digidol i gefnogi adfywiad trefi a lleiafu tlodi digidol.

Mae diogelwch cymunedau a chymdogaethau yn allweddol i ddatblygiad a chynaliadwyedd cymunedau llewyrchus. Mae’n galonogol bod damweiniau traffig ffordd wedi gostwng 44% yn CNPT rhwng 2019 a 2020, sy’n parhau’r tueddiad blynyddol cadarnhaol o ran gwella diogelwch ffyrdd ers 2015. Bydd pandemig COVID-19 wedi cael rhywfaint o effaith ar y gostyngiad sylweddol rhwng 2019 a 2020. Ar y llaw arall, gwelwyd cynnydd sy’n destun pryder yn y damweiniau ffyrdd yn cynnwys beicwyr, sy’n awgrymu bod angen rhoi sylw i’r agwedd hon ar drafndiaeth, yn arbennig wrth i e-feiciau ddod i’r amlwg. Ymhellach, mae 22% o’r holl ddamweiniau traffig ffordd yn cynnwys teithwyr llesol, naill ai cerddwyr (12%) neu feicwyr (10%). Wrth i brisiau tanwydd godi ac i ni symud at seilwaith teithio llesol, mae angen ystyried y mater hwn yn ofalus.

Fel y nodwyd, mae mynediad at fannau gwyrdd yn dal yn broblem yn CNPT er gwaethaf asedau sylweddol. Mae gan ardaloedd trefol, yn arbennig, fynediad cyfyngedig i fyd natur a chysylltiad cynyddol â llygredd aer a sŵn, ochr yn ochr â lefelau pryder a straen sy'n codi a lefelau is o gydlyniant cymdeithasol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn amlygu cynyddu mynediad i fannau gwyrdd a glas a darparu cyfleusterau cymunedol i ddod â phobl at ei gilydd fel 'buddsoddiad gorau' i atal salwch meddwl a gwella llesiant meddyliol. Ar ben hynny, mae pandemig COVID-19 wedi cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u hamgylchiadau, ac amlygwyd yr amgylchedd naturiol lleol fel ased cymunedol allweddol. Roedd canlyniadau Dewch i Sgwrsio yn pwysleisio'r angen am ddiogelu'r ardal leol a'i hasedau amgylcheddol naturiol presennol.

Yn y data "Dewch i Sgwrsio", roedd trigolion CNPT yn teimlo bod CNPT yn lle da i fyw a bod ganddo lawer i'w gynnig o ran seilwaith a diwylliant. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd sy'n destun pryder mewn troseddau atgasedd, yn arbennig yn erbyn adrannau lleiafrifol a bregus o'r boblogaeth, a hefyd mewn seiberdroseddau, gyda thrais yn ymddygiad amlycaf. Ar nodyn cadarnhaol, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau yn erbyn benywod wedi gostwng yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.



CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU



Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

Trwy'r ymgyrch "Dewch i Sgwrsio", roedd yn eglur bod yr amgylchedd lleol, yr iaith Gymraeg a threftadaeth a diwylliant lleol yn bwysig i drigolion CNPT. Yn benodol, roedden nhw'n gofyn bod gweithgarwch diwylliannol yn canolbwyntio ar 5 prif faes:

- Cadw'r gorffennol yn fyw, gan hybu a dathlu treftadaeth er mwyn cryfhau hunaniaeth ac ymdeimlad o berthyn;
- Helpu i ddiogelu, cadw a chynnal safleoedd hanesyddol a threftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol;
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ei thraddodiadau a'i diwylliant;
- Helpu pob cenedlaeth i gysylltu â'r amgylchedd naturiol, treftadaeth a diwylliant; a
- Chynorthwyo grwpiau cymunedol a gwirfoddol i gynnal a datblygu ymhellach eu gwaith pwysig.

Mae dros 20,000 o drigolion CNPT yn siarad Cymraeg: 15.3% o boblogaeth y sir. Mae mwy na hynny mewn 5 o'r 8 ardal gymunedol yn CNPT, ac mae'r defnydd o'r iaith amlycaf ym mhen uchaf Cwm Tawe a Dyffryn Aman. Mae'n aneglur a ddefnyddiwyd yr un dulliau i ganfod yr ystadegyn hwn, ond roedd cyfartaledd cenedlaethol siaradwyr Cymraeg bron dwywaith hynny, sef 28.5%. Wrth edrych ar elfennau unigol defnyddio'r Gymraeg, yn CNPT (o gymharu â Chymru), roedd 18% o'r boblogaeth 3 oed a throsodd yn gallu darllen Cymraeg (25.9%), 15.7% yn gallu ysgrifennu Cymraeg (23.8%) a 26.0% yn gallu deall Cymraeg llafar (33.7%). Mae angen ystyried sut mae amgylcheddau'n cael eu datblygu mewn ffordd gynhwysol sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Mae cysylltiad annatod rhwng treftadaeth naturiol a diwylliannol. Mae'r tirlun a'r amgylchedd o amgylch CNPT yn ffurfio ac yn dylanwadu ar hunaniaeth ddiwylliannol a pherchnogaeth. Mae treftadaeth ddiwydiannol sylweddol, gan gynnwys llawer o adeiladau hanesyddol a safleoedd o ddiddordeb gwyddonol a hanesyddol sylweddol. Mae CNPT wedi cynhyrchu llawer o actorion, cerddorion ac artistiaid bydenwog. Yn 2019, dywedodd dau draean o'r bobl oedd yn byw yn CNPT eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn; mae hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru o 71%. Ar ben hynny, mae cryn dipyn o weithgarwch gwirfoddol sy'n helpu i gynnal y celfyddydau a diwylliant yn CNPT. Ond mae'r rhan fwyaf o gynefinoedd o dan fygythiad, gan gynnwys SoDdGA (safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig) sydd mewn cyflwr anffafriol. Y prif ffactorau sy'n eu rhoi dan bwysau yw diffyg rheolaeth neu reolaeth wael, a darnio neu golli cysylltiadau rhwng cynefinoedd. Nid yw'r sefyllfa rydyn ni'n ei hwynebu yn rhywbeth sy'n gallu cael ei ddatrys oddi mewn i'r sector amgylcheddol. Mae angen newidiadau trawsffurfiannol yn ein systemau economaidd a chymdeithasol, gan gydnabod y cysylltiadau a'r dolenni adborth sy'n bodoli rhwng y systemau hynny.

Mae chwaraeon yn rhan fawr o ddiwylliant a threftadaeth CNPT. Mae'r clybiau rygbi a phêl-droed yn parhau i ffynnu, ac yn ogystal â bod yn ganolfannau chwaraeon, maen nhw hefyd yn asedau cymunedol pwysig, yn darparu lleoliad ar gyfer dathliadau, adloniant ac i gynnal cyfarfodydd. Soniwyd am fanteision chwaraeon a gweithgarwch corfforol o safbwynt iechyd corff a meddwl yn arolwg a grwpiau ffocws "Dewch i Sgwrsio". Mae tua hanner plant CNPT yn dwlu ar chwaraeon, a gwelwyd nifer y trigolion oedd yn dymuno gwirfoddoli ym myd chwaraeon yn treblu yn ystod y pandemig. Yn fuan, bydd yr awdurdod lleol yn dod yn gyfrifol am redeg y pedair canolfan hamdden yn CNPT, gyda'r nod o gynyddu gweithgarwch a defnydd o'r cyfleusterau. Mae CNPT yn gartref i gyfleusterau chwaraeon a hamdden ychwanegol cynhwysol. Yn eu plith mae llwybrau beicio mynydd o'r radd flaenaf yng Nghwm Afan, y golff antur, y parc sglefrio, pwll chwarae 'aqua splash' a'r lle chwarae antur ar lan y môr yn Aberafan, cyfleoedd i farchogaeth yn Nyffryn Aman ac amrywiaeth o lwybrau cerdded trwy goetir, mewn parciau ac wrth ymyl camlesi. Mae glan môr Aberafan hefyd yn gartref i ystod o weithgareddau dŵr, yn cynnwys syrffio a nofio dŵr agored. Mae llawer o gyfleusterau, mannau gwyrdd a glas a lleoedd i chwarae yn CNPT, sy'n darparu seilwaith i gynnal llesiant ac ymddygiad iach.

O bersbectif diwylliannol, mae CNPT yn darparu preswylfa i ryw 5% o'r boblogaeth sy'n perthyn i grwpiau ethnig lleiafrifol a du. Mae'r grwpiau hyn yn ychwanegu dyfnder ac amrywiaeth diwylliannol i'r ardal, lle caiff 59 o ieithoedd eu siarad. Mae'r iaith Gymraeg, y celfyddydau, yr amgylchedd naturiol, chwaraeon a threftadaeth i gyd yn elfennau pwysig o hunaniaeth yr adroddodd ymatebwyr i'r ymgyrch "Dewch i Sgwrsio" amdanyn nhw. Mae'n bwysig nodi bod pandemig COVID-19 wedi chwyddo'r lens ar yr asedau a'r gweithgareddau hyn, gan ddarparu cerrig sylfaen ar gyfer dod â chymunedau ynghyd mewn diwygiad chwaraeon a diwylliant.



CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG



Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

Mae pobl yng Nghymru yn defnyddio gwerth 2.5 blaned o adnoddau, er mai'r targed yw 1. Mae CNPT yn cyfrannu'n sylweddol at garbon Cymru oherwydd lefel uchel y diwydiant yno, ond mae hefyd yn cynhyrchu lefel uchel o ynni adnewyddadwy. Mae gan CNPT 3.2 gha (hectarau byd-eang) y pen, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.28. Gyda biogapasiti cyfartalog o 1.63 gha y pen ar draws y byd mae CNPT yn defnyddio llawer mwy na'r hyn sy'n gynaliadwy i'r blaned. Mae CNPT yn gwneud ymdrechion sylweddol i leihau effaith carbon ar iechyd y blaned, ac mae hynny'n eithriadol o bwysig i'r trigolion ac o ran effaith byd-eang.

Yn ôl yr [Adroddiad Risgiau Byd-eang](#), iechyd y blaned yw'r pryder pennaf, a chanfyddir mai risgiau amgylcheddol yw'r pum bygythiad tymor hir mwyaf critigol i'r byd, yn ogystal â'r rhai a allai fod yn fwyaf niweidiol i drigolion CNPT. Mae'r tair risg y bernir mai nhw yw'r mwyaf difrifol, sef "methiant gweithredu ynghylch yr hinsawdd", "tywydd eithafol" a "colli bioamrywiaeth" yn destun pryder sylweddol i drigolion CNPT.

Er bod CNPT yn wynebu risg allweddol o ran cyflawni sero net erbyn 2050, gan mai yma y ceir y dwysedd carbon uchaf o blith holl ardaloedd awdurdod lleol y Deyrnas Unedig, mae hefyd yn arwain y gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, ac mae ymhlith yr ardaloedd sydd â'r capasiti uchaf yng Nghymru o ran gosodiadau ynni adnewyddadwy. Mae cynlluniau i adfer mawndiroedd gan ddefnyddio adnoddau a gynhyrchwyd trwy liniaru ffermydd gwynt a gwella a datblygu coetir ymhellach, ochr yn ochr â diogelu a chynyddu ei stoc bioamrywiaeth trwy adferiad byd natur yn dangos ffyrdd posibl o dargedu argyfyngau'r hinsawdd a byd natur ar y cyd. Ar ben hynny, mae ymdrechion a wnaed i ddiogelu'r blaned a hybu economi gynaliadwy yn ganolog i gynllun adferiad economaidd CNPT. O bersbectif cadarnhaol, mae CNPT yn falch o fod yn gartref i ganolfan feicio Cwm Afan, sy'n cynnwys cyfleusterau beicio oddi ar y ffordd o'r radd flaenaf, ac mae'r ardal hefyd wedi cynhyrchu nifer o artistiaid, cerddorion ac actorion enwog sydd wedi datblygu hunaniaeth byd-eang ar gyfer pobl CNPT, gan roi hwb i'w hunan-barch ar yr un pryd.

CANFYDDIADAU'R CYHOEDD O NEWID – YMATEB “DEWCH I SGWRSIO”



Gofynnodd yr [Arolwg Canfyddiad o Risgiau Byd-eang](#), a weinyddwyd yn rhyngwladol, i'r cyhoedd ar draws y byd fyfyrion ar risgiau canfyddedig i gymdeithas, yn y tymor byr (2 flynedd) i'r tymor canolig (5 mlynedd). Helpodd yr arolwg i nodi pryderon cymdeithasol ac amgylcheddol fel “erydu cydlyniant cymdeithasol”, “argyfyngau bywoliaeth” a “dirywiad mewn iechyd meddwl.” O bersbectif tymor hwy (10 mlynedd), risgiau amgylcheddol canfyddedig megis “methiant y gweithredu ynghylch yr hinsawdd”, “tywydd eithafol”, a “cholli bioamrywiaeth” oedd yn cael y lle blaenaf. Mae data “Dewch i Sgwrsio” hefyd yn helpu i ddarparu cyd-destun ar gyfer yr ymarferion “Rhagolwg a'r Dyfodol” a amlinellir yn adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru (Rhagfyr 2021).

Roedd trigolion CNPT yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolwg rhyngwladol, gan adlewyrchu'r pryder byd-eang a'r sylw cyson a roddir i'r newid yn yr hinsawdd ar y cyfryngau. Mae'n bwysig cydnabod hyn, ac ystyried sut mae modd defnyddio dylanwad yn lleol, ochr yn ochr â gweithredu fel dinasyddion sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang. Yn ymgyrch ac arolwg “Dewch i Sgwrsio”, dylanwadwyd yn sylweddol ar drigolion CNPT gan bandemig COVID-19 a'r newid yn yr hinsawdd. Isod cyflwynir crynodeb o'r ymatebion “Dewch i Sgwrsio” o'r holiadur a'r grwpiau ffocws.

THEMÂU “DEWCH I SGWRSIO”

Roedd mwy o berchnogaeth gymunedol yn thema bwysig, gyda'r trigolion yn ysgwyddo cyfrifoldebau gwirfoddoli i helpu'r rhai oedd mewn sefyllfa fwy bregus. Er bod hyn yn cynyddu cydlyniant ac ysbryd cymunedol, roedd teimlad hefyd bod cymunedau, o reidrwydd, wedi dod yn hunangynhaliol, a'u bod yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr yn hytrach na gwasanaethau lleol. Teimlid bod cyflwyno cynllun Hyrwyddwyr Stryd wedi cael effaith arbennig o gadarnhaol.

“Roedd gen i gymydog yn curo ar fy nrws i weld oedd angen presgripsiwn arna i, ac roedd pobl yn holi oedd angen bara neu laeth arnaf fi. Fe fues i'n eistedd yn yr ardd, ac roedd pawb oedd yn mynd heibio yn aros i siarad. Gwnaeth hynny i fi sylweddoli o'r newydd mod i'n falch o fod nôl yng Nglyncorrwg” (Cwm Afan)

Mewn cyferbyniad â'r cynnydd yng nghyfraniad trigolion y gymuned, ail thema bwysig oedd bod cefnogaeth allanol wedi cael ei thynnu'n ôl neu'n annigonol, gan gynnwys gwasanaethau dydd i oedolion hŷn, darpariaeth gymdeithasol i oedolion ag anawsterau dysgu, a chanolfannau ieuenedid. Cyfrannodd y newidiadau hyn at gynnydd yn yr ynysu cymdeithasol a'r unigrwydd oedd yn thema gyson, gan effeithio nid yn unig ar aelodau mwyaf bregus y gymuned, ond hefyd ar blant oedd yn methu mynd i'r ysgol yn ystod cyfnodau pan orfodwyd ysgolion i gau. Ffaith bwysig yw bod rhai trigolion yn nodi bod ynysu cymdeithasol ac unigrwydd yn uchel o fewn y gymuned cyn pandemig COVID-19, a bod y pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa.

“Roeddwn i’n arfer rhedeg clwb ieuenctid yn Llansawel, sy’n ardal eitha difreintiedig. Mae gennyh chi gymuned o Sipsiwn yno, cymuned o Deithwyr, etc. ac roedden nhw’n arfer dod yn aml, i’r clwb ieuenctid yna, ac yn amlwg daeth hwnnw i ben. Dyw e ddim wedi ailgychwyn... felly byddai wedi cael effaith negyddol ar blant” (Cwm Dulais)

“Does yna ddim unman fel ‘Mind’ yn y Cymoedd, felly mae rhaid i chi fynd at y meddyg i gael moddion gwrthiselder” (Cwm Afan)

“Mae wedi rhannu’r rhai sydd â phethau a’r rhai sydd heb bethau. Mae wedi rhannu’r bobl oedd yn ynysig a’r rhai oedd yn medru cael cefnogaeth” (Dyffryn Aman)

Gwaethygyd materion iechyd meddwl gan gyfuniad o’r ffactorau hyn. Trafododd y trigolion effaith niweidiol eu diffyg mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol roedd arnyn nhw eu hangen, a’r gorbryder brofwyd gan blant ynghylch dal COVID-19 yn yr ysgol a heintio aelodau o’u teulu. Yn ogystal â’r pryder a’r ynysu cynyddol a brofwyd gan blant oed ysgol, nododd yr ymatebion i’r holiadur effaith negyddol yn unig gan y pandemig ar bobl ifanc, fel yr adroddwyd gan y grŵp oedran hwn.

“Rydw i’n credu bod llawer o’r gwasanaethau iechyd, yn arbennig y gwasanaethau iechyd meddwl, wedi cymryd rhywfaint o gam yn ôl oherwydd COVID... ac mae llawer o bobl yn dioddef o ganlyniad i hynny. Rwy’n credu bod rhaid i hynny stopio nawr. Mae’n rhaid gwella pethau ac mae’n rhaid helpu pobl” (Cwm Dulais)

“Rydw i’n gwybod yn achos fy un i, roedd rhaid i mi gymryd deg wythnos o’r gwaith oherwydd ei bod hi’n teimlo mor bryderus achos bod ei threfn ddyddiol, ei ffrindiau, a phopeth wedi newid” (Cwm Nedd)

O bosib mewn cysylltiad â hyn, gan fod ysgolion a chanolfannau ieuenctid ar gau, a materion iechyd meddwl yn gwaethygu ymhlith pobl ifanc, trafodwyd cynnydd sylweddol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol megis cymryd cyffuriau ac yfed mewn ardaloedd hamdden yn gyson yn yr ymatebion.

“Plant ac oedolion ifanc, mae cynnydd mawr wedi bod yn y grwpiau o bobl yn smygu ac yn cymryd cyffuriau yn yr ardal, a hefyd yn yfed. Ac rydych chi’n sôn am bobl ifanc 12/13 oed gyda diod a chyffuriau yn yr ardal. Rwy’n credu bod nhw’n methu gwario’r arian mewn manau eraill fel roedden nhw’n arfer, felly maen nhw’n dweud ‘mae gennym ni arian, beth am wneud rhywbeth arall’” (Cwm Dulais)


Yr effaith economaidd ac ariannol ar lefel gymunedol ac unigol oedd y thema negyddol olaf oedd yn amlwg. Roedd yr economi leol mewn trafferthion oherwydd bod siopau a busnesau wedi cael eu gorfodi i gau yn ystod y cyfnodau clo, ac roedd rhai unigolion naill ai wedi colli eu swydd, mewn sefyllfa waeth yn ariannol, neu’n pryderu am eu sefyllfa ariannol a chyflogaeth yn y dyfodol.

Mewn cyferbyniad â hyn, roedd y trigolion yn gwerthfawrogi'r agwedd gyfunol at waith roedd llawer yn ei phrofi, yn gosod gwerth ar gael mwy o amser gyda'u teulu a'r cydbwysedd gwell rhwng gwaith a bywyd, a'r amser i fyfyrto a gwneud penderfyniadau roedd hynny'n ei ganiatáu.

“Rwy’n credu bod hyn wedi rhoi ychydig mwy o hyblygrwydd i ni o ran gwaith/bywyd. Cwrdd ar Zoom, llawer o bobl yn gweithio gartref. Roeddwn i’n cael bod hynny’n haws o ran y plant... Dyw e ddim yn gweithio i bawb, a dylai fod opsiwn i bobl deithio i adeilad penodol os ydyn nhw eisiau, ond rwy’n gwybod am lawer o famau sydd wedi cael bod yr agwedd honno’n haws wrth symud ymlaen, yn arbennig yng nghyswllt mynd â’r plant i’r ysgol a’u casglu...” (Cwm Dulais)

Mae Ffigur 1 yn darlunio'r prif agweddau a wnaeth gyfraniad cadarnhaol (gwyrdd) a negyddol (glas) yn ystod pandemig COVID-19. Ffigur 1 Newidiadau a brofwyd mewn cymunedau oherwydd pandemig COVID-19 a'r berthynas rhyngddydd nhw a'i gilydd (gwyrdd = newidiadau cadarnhaol; glas = newidiadau negyddol)

NEWIDIADAU A BROFWYD




CANFYDDIADAU'R CYHOEDD O'R BLAENORIAETHAU WRTH SYMUD YMLAEN – YMATEB “DEWCH I SGWRSIO”



Mae naws, nifer a phwyslais y prif flaenoriaethau i'r dyfodol a drafodwyd gan y trigolion yn awgrymu bod y rhain yn eithriadol bwysig iddyn nhw, gan yr ymddengys bod iddynt ganlyniadau ar gyfer ansawdd bywyd cyffredinol yr holl grwpiau o drigolion trwy effeithio ar gyfleoedd gwaith, iechyd, perchnogaeth gymunedol, integreiddio cymdeithasol, a chynaliadwyedd cymunedol. Bwriad Ffigur 2 yw darlunio ble mae rhyngweithio a rhyngberthynas posibl ac elfennau a drafodwyd i'w gweld ymhlith y themâu.

Ffigur 2

Blaenoriaethau trigolion cymunedau i'r dyfodol, a'r berthynas rhyngddyn nhw a'i gilydd



Roedd llawer o'r sylwadau yn canolbwyntio ar yr angen am seilwaith cymunedol gwell, yn anad dim, cysylltiadau trafndiaeth gwell sy'n ddibynadwy, yn ddigonol i fodloni anghenion teithio, ac yn fforddiadwy. Ni ellir tanbriso pwysigrwydd y thema hon, gan ei bod yn effeithio ar themâu allweddol eraill isod; er enghraifft, mae cysylltiadau trafndiaeth gwael yn atal plant rhag cyfranogi mewn gweithgareddau allgyrsiol ac yn atal oedolion rhag mynd ar ôl cyfleoedd gwaith nad ydynt yn lleol, oni bai bod ganddyn nhw gar y gallan nhw ei ddefnyddio. Roedd barn gref y dylid parhau â'r cyllid ar gyfer amwynderau lleol, megis pyllau nofio, llyfrgelloedd a chyfleusterau diwrnod cyfan i bob oed, yn arbennig rhai agored i niwed ac oedolion hŷn. Roedd hefyd yn bwysig bod pobl yn teimlo y dylid dyrannu cyllid i gynnal a pharhau â chyfleusterau oedd eisoes yn bodoli, yn hytrach nag adeiladu rhai newydd.

“Rydw i eisiau trafndiaeth i'n plant wneud gweithgareddau allgyrsiol. Os ydyn nhw yn yr ysgol gyfun ym Mhort Talbot, rydw i eisiau bod yn siŵr eu bod nhw'n gallu gwneud clybiau ar ôl ysgol, timau chwaraeon a hyfforddiant ar ôl oriau ysgol. Rydw i eisiau iddyn nhw gael yr un dechrau'n union â'r plant yr holl ffordd lawr o Gwmafan” (Cwm Afan)

“Maen nhw’n dweud eu bod nhw eisiau i chi fynd allan i weithio, wel ble gallwch chi weithio am dair awr y dydd? Erbyn i chi ddal eich bws... gallwch chi weithio tair awr, ac yna mae rhaid i chi ddal y bws olaf adre. Allwch chi byth gadw hynny i fynd” (Cwm Nedd)

“Trwy agor y ganolfan gymunedol. Rhowch hi nôl i’r gymuned, ond rhowch arian i ni i gynnal a chadw’r adeilad, ac fel bod gennym ni arian i dalu i gymorth proffesiynol ddod yma” (Cwm Afan)

“Gofynnwch i bobl beth maen nhw eisiau. Peidiwch mynd ati i adeiladu parc neu neuadd newydd gan dybio mai dyna oedden ni eisiau neu angen” (Cwm Nedd)

Thema amlwg oedd yr angen am wella gofal cymdeithasol a iechyd i bobl yn y cymunedau hyn, oedd wedi cael ei waethygu yn sgîl mwy o ynysu ac unigrwydd, ac amlygrwydd cynyddol anawsterau iechyd meddwl, oedd yn cael ei egluro’n rhannol yn sgîl gofal cymdeithasol a iechyd annigonol. Nid oedd gan y trigolion fynediad at y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol roedd arnyn nhw eu hangen, ac roedd hynny’n effeithio’n fawr ar yr oedolion bregus a hÿn, yn ogystal â’r rhai nad ydynt yn cael derbyn gwasanaethau am resymau biwrocraataidd cysylltiedig â’u lleoliad daearyddol.

“Rwy’n credu bod yna bobl wedi’u cuddio yn ein cymunedau yma sy’n dioddef o eithrio cymdeithasol, ynysu cymdeithasol, a dyw’r cymunedau ddim yn gwybod amdany’n nhw, falle bod y cymdogion ddim yn gwybod amdany’n nhw, a mater o amser yw hi cyn bydd y sefyllfa’n ffrwydro” (Dyffryn Aman)

Yn gysylltiedig â’r thema hon, trydedd prif flaenoriaeth i’r dyfodol oedd gwelliant yn y gwasanaethau i bobl ifanc, yn arbennig y rhai sy’n ddifreintiedig. Nododd y trigolion fod angen mwy o fuddsoddi, gan gynnwys cyfleusterau awyr agored rhatach i bobl iau, ac angen parhau i sicrhau cyllid i ysgolion.

“Mae angen iddyn nhw fuddsoddi yn seilwaith y cymunedau bach yma. Mae angen iddyn nhw ddod i lawr yma, mae angen iddyn nhw siarad â ni, mae angen iddyn nhw edrych ar beth sydd gennym ni, ac mae angen iddyn nhw fuddsoddi ynon ni. Yn arbennig ein pobl ifanc... mae yna blant mas fanna, galla i weld plant trwy’r ffenest nawr sydd heb unman i fynd. Does yna ddim seilwaith iddyn nhw” (Cwm Nedd)

Yn arbennig yn yr ymatebion i’r holiadur, mynegwyd angen am gynyddu cyllid cymunedol i wella a diogelu asedau esthetig a naturiol y gymuned, a thrwy hynny wella profiadau pobl o fyw yno. Mae angen strydoedd glanach, sy’n cael eu cadw mewn cyflwr da, mwy o gynlluniau casglu sbwriel, parciau glanach gyda phatroliau, a mynegwyd yn gryf yn y ddwy set o ddata, llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol cyhoeddus gan bobl ifanc, a oedd wedi cynyddu yn ôl canfyddiad y trigolion. Yn gysylltiedig â hynny, roedd sylwadau gan leiafrif o’r ymatebion i’r holiadur yn adlewyrchu angen am ddiogelu’r amgylchedd lleol trwy atal gorddatblygu, diogelu treftadaeth leol ac atal llifogydd.

“Nid y parc yw’r broblem, ond y costau cyffredinol a sut mae’n cael ei redeg. Rydyn ni wedi gweld baw cŵn dros y cyfarpar i gyd” (Cwm Dulais)

Mynegodd pobl angen am gefnogaeth ariannol i’r gymuned i helpu i leihau amddifadedd a diweithdra, a digartrefedd. Roedd hynny’n amrywio o beidio â chodi biliau treth y cyngor, oedd eisoes yn uchel, i gefnogi digwyddiadau cymdeithasol fforddiadwy er mwyn helpu i atal ynysu a salwch meddwl.

“Ein treth cyngor yw’r drydedd uchaf yng Nghymru... ac rwy’n credu bod gennym ni hefyd, lan fan hyn, ychwanegiad o’r enw praesept cyngor cymuned, sy’n ddim mwy na siop siarad... dwy ddim yn credu bod hynny’n werth yr arian. Beth rydyn ni’n ei gael amdano fe?” (Dyffryn Aman)

Thema allweddol sy’n sylfaen ar gyfer y rhwystredigaethau a’r blaenoriaethau a nodwyd gan drigolion uchod yw’r angen brys am wella gweithio mewn partneriaeth rhwng y Cyngor a thrigolion. Teimlai llawer o bobl fod penderfyniadau yn cael eu gwneud heb eu mewnbwn, ac o ganlyniad, nad oedd eu hanghenion iechyd, gofal a chymdeithasol gwirioneddol yn cael eu hystyried. Roedden nhw’n argymhell dull mwy cydweithredol, lle mae’r trigolion yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau, gyda llais i bob cymuned, gan gynnwys yr ardaloedd llai, sy’n cael eu hesgeuluso, a thryloywder ynghylch penderfyniadau ariannol a mewnbwn iddyn nhw. Mae angen meithrin perthynas well rhwng y Cyngor a thrigolion, gan gychwyn gyda diffiniadau cliriach o rolau’r Cydlynwyr Ardal Leol a Swyddogion y Cyngor, i sicrhau bod y rhain yn gweithio cystal â phosibl ac ar lefel gyfartal mewn gwahanol ardaloedd.

“Byddai’n braf cael cefnogaeth. Mynd ati i wrando ar anghenion y gymuned a’r bobl sy’n byw yn y cymunedau a gweithredu ar sail hynny. Nid dyfalu beth mae pobl angen neu wneud beth maen nhw’n galw’n ‘lles pennaf’. Mynd ati i wrando ar anghenion y bobl a’r cymunedau. Mae pob cymuned yn gwbl wahanol” (Cwm Nedd)

Yn olaf, roedd yr ymatebion i’r holiadur yn galluogi pobl i nodi beth sydd bwysicaf iddyn nhw a’u blaenoriaethau ar unwaith ac i’r dyfodol. Cyfeiriodd mwyafrif llethol at ffrindiau a theulu fel yr elfen bwysicaf, sy’n amlygu pwysigrwydd gwneud pobl yn ganolog i benderfyniadau yn y dyfodol. Roedd dychwelyd i normal, cadw’n ddiogel, cynnal iechyd ac addysg yn flaenoriaethau allweddol ar unwaith, a nodwyd addysg, yr economi a materion amgylcheddol fel blaenoriaethau allweddol i’r dyfodol. Nid yw’n syndod bod y blaenoriaethau’n amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl: roedd pobl iau yn rhoi blaenoriaeth i weithgareddau a chyfleusterau hamdden; roedd pobl 50+ yn rhoi blaenoriaeth i iechyd/lesiant corff a meddwl; roedd gweithwyr y cyngor yn rhoi blaenoriaeth i gydbwysedd gwaith-bywyd, ac roedd perchnogion busnesau yn rhoi blaenoriaeth i’r economi, gwella’r ardal leol a materion amgylcheddol lleol (e.e. ailgylchu)



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

ASESIAD LLESIANT



Y BENNOD CRYNODEB